## Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes o'r enw 'Dull Llywodraeth Cymru o Hyrwyddo Masnach a Mewnfuddsoddi'

**Dyddiad yr ymateb: Tachwedd 2014**

---

Mae deg argymhelliad yn yr adroddiad. Gellir grwpio'r argymhellion hyn yn dri chategori: cydberthynas ag UKTI a/neu'r sector preifat; tryloywder gwell ac; ansawdd ystadegau economaidd gwell. Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod.

**Argymhelliad 1 - Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad annibynnol er mwyn asesu p'un a yw'r dull gweithredu mewnol presennol mewn perthynas â chefnogi masnach a mewnfuddsoddiad yn arfer da ac yn cynnig gwerth am arian.**

Ymateb: Gwrthod
Roedd tystiolaeth lafar Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn gwrthod yn gryf y syniad o sefydlu sefydliad hyd braich i sicrhau masnach a mewnfuddsoddiad i Gymru. Cyflawnwyd ein perfformiad cryfaf mewn perthynas â mewnfuddsoddi ers 30 mlynedd yn 2013-14 (cynnydd o 53% o gymharu â 2012-13). Roedd hyn yn dilyn cynnydd o 191% mewn prosiectau mewnfuddsoddi yn 2012-13 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae ein dull gweithredu mewn perthynas â masnach hefyd yn sicrhau canlyniadau. Mae'r ffigurau archwilio diweddaraf yn dangos mai Cymru sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn allforion o blith pedair gwlad y DU, gyda chynnydd mewn allforion i wledydd yr UE a gwledydd nad ydynt yn yr UE.

Caiff busnesau yng Nghymru gymorth i ryngwladoli ac allforio drwy ein rhaglen fasnach eang sy'n rhoi cymorth ariannol i fusnesau i allforio, yn ogystal â mynediad i farchnadoedd tramor drwy genadaethau a digwyddiadau masnach. Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi cynnal, neu byddwn yn cynnal, 31 o ymweliadau/digwyddiadau tramor sy'n cwmpasu 19 o farchnadoedd sy'n cefnogi'r twf mewn allforion o Gymru.

Mae'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn gweithio.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

**Argymhelliad 2 - Dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gall gynyddu cyfranogiad y sector preifat o ran denu mewnfuddsoddiad.**

Ymateb: Derbyn
Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cydweithio'n agos â'r sector preifat er mwyn denu mewnfuddsoddiad ond gellir ystyried opsiynau i ddatblygu'r berthynas hon ymhellach. Bydd y graddau y

byddwn yn rhyngweithio â'r sector preifat bob amser yn dibynnu ar ofynion y cwsmer. Mae ein paneli sector a Byrddau Ardaloedd Menter eisoes yn rhoi cyngor ar y dull gweithredu mewn perthynas â mewnfuddsoddi a chynrychiolaeth o'r sector preifat a geir arnynt yn bennaf. Hefyd, mae'r Ganolfan Gwyddorau Bywyd yn dwyn ynghyd y sector cyhoeddus a'r sector preifat, academia a sefydliadau gofal iechyd i gefnogi a chyflwyno gweithgareddau mewnfuddsoddi yn y sector.

Mae gennym gydberthynas dda ag UKTI a gallwn fanteisio ar sefydliadau'r sector preifat, fel Ernst & Young a PwC, sydd dan gontract gan UKTI i hyrwyddo'r DU i gwmnïau mewn rhai marchnadoedd tramor. Mae hyn o gymorth i sicrhau y caiff cynnig Cymru ei gyfleu'n effeithiol i'r sefydliadau hyn yn y sector preifat.

Goblygiadau Ariannol**:** Dim.

**Argymhelliad 3 - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer cynyddu cynrychiolaeth yn nigwyddiadau UKTI. Nid oes angen i'r gynrychiolaeth hon o reidrwydd fod ar lefel Gweinidogion na swyddogion, ond gallai gynnwys y paneli sector neu bartneriaid sector preifat yn fwy.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor
Fel y nodwyd yn nhystiolaeth lafar Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor, mae UKTI yn cynnal cannoedd o ddigwyddiadau yn y DU ac yn fyd-eang. Byddwn yn parhau i ystyried cyfleoedd i gydweithredu mwy ag UKTI ar bob lefel er mwyn cynyddu cynrychiolaeth mewn digwyddiadau a gynhelir gan UKTI.

Un ffordd o gyflawni hyn yw drwy sicrhau, lle mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolaeth dramor, bod y timau yn y farchnad yn cael eu gwahodd i fynychu digwyddiadau a gynhelir gan UKTI yn y marchnadoedd hynny fel mater o drefn. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros Fasnach a Buddsoddi ar y mater hwn er mwyn sicrhau bod ein timau tramor yn cael eu gwahodd i fynychu digwyddiadau a gynhelir gan UKTI fel mater o drefn.

Goblygiadau Ariannol: Bydd cyllidebau presennol yn talu costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â theithio ychwanegol.

**Argymhelliad 4** - **Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol tryloyw sy'n dangos perfformiad mewnfuddsoddi blynyddol economi Cymru. Dylai'r dangosyddion gynnwys nifer y prosiectau newydd, mentrau ar y cyd ac achosion o gaffael, ehangu a chadw; ac, ar gyfer pob un o'r mathau hyn o brosiectau, nifer y swyddi a grëwyd, nifer y swyddi a ddiogelwyd a chyfanswm gwerth y buddsoddiad cyfalaf neu'r gwariant dan sylw. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfres gyfatebol o ffigurau ar gyfer prosiectau y bu'n uniongyrchol gysylltiedig â hwy, gan**

**ddangos hefyd faint o adnoddau ariannol a neilltuwyd ganddi wrth sicrhau'r prosiectau.**

Ymateb: Gwrthod
Am resymau cyfrinachedd masnachol, ni allwn gyhoeddi manylion llawn buddsoddiadau heb gael caniatâd y cwmni ymlaen llaw ac mewn sawl achos ni fydd y cwmni'n gadael i ni gyhoeddi'r wybodaeth hon. Rydym eisoes yn rhyddhau manylion ein perfformiad mewnfuddsoddi bob blwyddyn ochr yn ochr â chyhoeddi adroddiad blynyddol UKTI. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am brosiectau newydd, mentrau ar y cyd ac achosion o gaffael, ehangu a chadw; a nifer y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

**Argymhelliad 5 - Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i wella ansawdd ac amseroldeb yr ystadegau economaidd sydd ar gael i Gymru. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol neu ei chomisiynu i lunio ffigurau Cynnyrch Domestig Gros ar gyfer Cymru, ar yr un sail ac amlder ag y bydd yn ei wneud ar gyfer y DU.**

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Ym mis Ebrill 2014, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid at Aelodau'r Cynulliad yn nodi ei bod wedi gofyn i'r Prif Economegydd a'r Prif Ystadegydd adolygu'r data (economaidd) sydd ar gael ar hyn o bryd ac ystyried pa wybodaeth y gellid ei llunio yn y dyfodol er mwyn gwella ein dealltwriaeth o economi Cymru ac atgyfnerthu'r sail dystiolaeth ar gyfer llunio polisïau. Mae'r adolygiad hwn bron wedi'i gwblhau bellach ac mae adroddiad drafft wedi'i baratoi, a'r casgliadau a ddaeth i'r amlwg wedi'u rhannu â Chyngor Adnewyddu'r Economi a Phaneli Sector â Blaenoriaeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Mewn perthynas â CDG/GYG, y prif gasgliad a ddaw i'r amlwg yw bod "*llunio dangosydd chwarterol o GYG am gost isel yn ddichonadwy, ond mae'r achos dros ddangosydd o'r fath yn llai cryf nag y bydd llawer yn ei dybio"*

Goblygiadau Ariannol: Dim

**Argymhelliad 6 - Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gomisiynu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i lunio ystadegau allforio gwell ar gyfer Cymru sy'n adlewyrchu'r cyfraniad a wna busnesau Cymru i allforion y DU ar ffurf allbynnau canolradd.**

Ymateb: Derbyn yn rhannol
Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod gwerth posibl ystadegau allforio gwell, a byddwn yn parhau i weithio gydag ONS er mwyn ceisio cyfleoedd ar gyfer gwelliannau. Fodd bynnag, mae'r broses o lunio ystadegau allforio ar gyfer Cymru sy'n adlewyrchu'r

cyfraniad a wna busnesau yng Nghymru i allforion y DU ar ffurf allbynnau canolradd yn bell o fod yn syml. Mae llifau masnach nwyddau a gwasanaethau ar draws ffiniau yn gymhleth ac yn gorgyffwrdd. Gall unrhyw allforyn penodol gynnwys sawl elfen gyda ffynonellau cyflenwi amrywiol uniongyrchol ac anuniongyrchol. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw ffordd syml na chost isel o ddatrys y problemau priodoli cysylltiedig.

Yn gyffredinol, byddai costau llunio ystadegau allforio gwell yn dibynnu ar y canlyniad bwriadedig a thrafodaethau ag ONS. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir uchod, gellid disgwyl y byddai'r gost sy'n gysylltiedig ag adlewyrchu'r cyfraniad a wna busnesau Cymru i allforion o'r DU ar ffurf allbynnau canolradd yn sylweddol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

**Argymhelliad 7 - Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mesurau perfformiad allweddol blynyddol ar gyfer y cymorth a ddarperir ganddi i allforwyr, gan gynnwys manylion cenadaethau a ffeiriau masnach; nifer y cyfranogwyr busnes sy'n cymryd rhan ymhob digwyddiad; gwerth yr archebion a enillir; gwerth cyfleoedd posibl i gwmnïau fynd ar eu trywydd; a chyfanswm cost y rhaglen cenadaethau a ffeiriau.**

Ymateb: Gwrthod
Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig nifer o opsiynau cymorth ar gyfer allforwyr o Gymru, yn cynnwys cyngor ar fasnach ryngwladol, cymorth ariannol, cenadaethau a ffeiriau masnach. Rydym yn rhoi cymorth ariannol drwy gynlluniau grant; cymorth ag ymweliadau â marchnadoedd tramor, naill ai fel rhan o genhadaeth masnach a reolir neu drwy ein cynllun grant Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnes; yn ogystal â chyngor ar allforio i farchnadoedd tramor. Bydd y rhan fwyaf o'r cwmnïau a gynorthwyir yn defnyddio mwy nag un o'r rhaglenni cymorth sydd ar gael, felly ni chaiff llwyddiannau eu priodoli i raglenni unigol.

Caiff effeithiolrwydd cymorth Llywodraeth Cymru i allforwyr ei fesur yn ôl gwerth y busnes newydd a enillir gan gwmnïau rydym wedi'u cynorthwyo. Caiff manylion cyfleoedd eu casglu a gwneir gwaith dilynol gyda busnesau fel rhan o'n gweithgareddau arferol.

Hefyd, rydym yn cyhoeddi ein rhaglen digwyddiadau tramor ar ein gwefan ac yn ei diweddaru'n rheolaidd, gan gysylltu â chwmnïau a gwneud gwaith marchnata eang ar gyfer y digwyddiadau hyn.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

**Argymhelliad 8 - Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei strategaeth brand ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi a sut mae'n gysylltiedig â'r brand ar gyfer yr economi, twristiaeth a'r wlad yn gyffredinol.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor
Rydym wrthi'n datblygu strategaeth brand ar gyfer Cymru. Datblygwyd *Just Ask Wales* i roi dull clir, cyson a chydlynus o ddeall yr hyn sydd gan Gymru a Llywodraeth Cymru i'w gynnig i fusnesau sy'n ystyried cyfleoedd i ehangu a lleoli a'u galluogi i fanteisio ar hynny. Caiff ymgyrch *Just Ask Wales* ei chynnwys o dan frand presennol Cymru. Yr ymgyrch *Does Unman yn Debyg i Gymru* yw'r ymgyrch gyfatebol i dwristiaid. Mae brand Cymru, fel sawl un arall, yn esblygu'n barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ffres i'w gynulleidfaoedd.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

**Argymhelliad 9 - Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa weithgareddau neu ddulliau gweithredu newydd y mae'n eu defnyddio i gyflawni'r addewidion a wnaed gan ymgyrch *Just Ask Wales* a rhoi diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion yr ymgyrch.**

Ymateb: Gwrthod
Mae *Just Ask Wales* yn un o nifer o weithgareddau ac mae'n anodd gwahanu elfennau unigol o'r rhaglen na phriodoli llwyddiant i unrhyw un ohonynt. Caiff perfformiad mewnfuddsoddi Cymru ei fesur drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol UKTI. Ni fyddai rhoi diweddariad blynyddol ar *Just Ask Wales* yn unig yn rhoi'r darlun cyfan o ran effeithiolrwydd yr ymgyrch.

Fel rhan o ymgyrch *Just Ask Wales*, rydym wedi datblygu safonau gwasanaeth penodol ar gyfer mynd i'r afael ag ymholiadau mewn perthynas â mewnfuddsoddi, ynghyd â microwefan ar gyfer ymgyrchoedd penodol a chyfres gynhwysfawr o ddeunyddiau cyson.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

**Argymhelliad 10 - Dylai Llywodraeth Cymru nodi, fel rhan o strategaeth datblygu economaidd glir, ei dyheadau ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi; gan gynnwys y marchnadoedd a'r sectorau rhyngwladol sydd o bwys strategol i Gymru, yn ei barn hi; sut y bydd yn helpu busnesau yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd yn y marchnadoedd hynny; a sut y bydd yn gweithio gyda buddsoddwyr presennol o dramor a darpar fuddsoddwyr o dramor i gynnal busnes yng Nghymru ac yn eu helpu i wneud hynny.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor
Mae Llywodraeth Cymru'n dilyn dull gweithredu integredig mewn perthynas â datblygu economaidd, gan gynnwys gweithgareddau masnach a buddsoddi, fel rhan o strategaeth a gytunwyd. Fodd bynnag, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i osod rhagor o fanylion ynghylch y gweithgareddau hyn dros y misoedd nesaf.

Goblygiadau Ariannol: Dim.